NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# myfuture mymidwife

Trawsnewid gofal bydwreigiaeth i bawb



# Fy Nyfodol, Fy Mydwraig

Mewn cymunedau ym mhobman, mae gan bob un fenyw, baban a theulu yr hawl ddynol sylfaenol i gael y gofal gorau a mwyaf diogel posibl yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth.

Fel rheoleiddiwr proffesiynol mwy na 40,000 o fydwragedd ym mhedair gwlad y DU, dyna'r hyn rydym yn ei ddisgwyl, a dyna'r hyn rydym yn ymdrechu i'w gyflawni, am mai dyna'r hyn y mae pobl yn ei haeddu – nawr, ac yn y dyfodol.

Dyna pam rydym wedi cyhoeddi safonau newydd i fydwragedd y dyfodol, a fydd yn sicrhau y gall bydwragedd sy'n dechrau yn y proffesiwn weithio mewn partneriaeth â menywod, gan ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu babanod, a pharchu eu barn, eu dewisiadau a'u penderfyniadau, gan ystyried yr amgylchiadau unigol y maent yn byw ynddynt.



# Beth mae'r safonau yn eu golygu i chi

Rhennir y safonau yn chwe rhan a elwir yn barthau.
Dyma beth y mae pob un yn ei olygu i chi:

## 1. Bod yn fydwraig atebol, annibynnol, a phroffesiynol

Mae bydwragedd yno ar gyfer pob menyw a theulu drwy gydol eu taith famolaeth, felly mae'n bwysig eu bod yn parchu eich anghenion, eich barn, a'ch dewisiadau a'r penderfyniadau a wneir ar sail gwybodaeth.

*Bydd eich bydwraig yn canolbwyntio ar eich anghenion personol er mwyn darparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol, a bydd yn atebol am y penderfyniadau a wnaiff gyda chi.*

## 2. Gofal bydwreigiaeth diogel ac effeithiol: hybu a darparu parhad o ran gofal a gofalwr

Mae bydwragedd yn darparu gofal yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth, a'r diwrnodau cyntaf pwysig hynny o fywyd teulu. Gallant eich cefnogi a gofalu amdanoch yn eich cartref, y gymuned, unedau a arweinir gan fydwreigiaeth, ysbytai a lleoliadau eraill.

*Bydd eich bydwraig yn gweithio mewn partneriaeth â chi i greu amgylchedd diogel, caredig a pharchus sy'n eich grymuso.*

## 3. Gofal cyffredinol i bob menyw a babi

Rôl bydwraig yw cefnogi a grymuso menywod i hybu canlyniadau cadarnhaol iddynt hwy, eu babanod a'u teuluoedd.

*Bydd eich bydwraig yn deall eich anghenion, a bydd yn gweithio er mwyn rhagweld ac atal cymhlethdodau.*

## 4. Gofal ychwanegol i fenywod a babanod â chymhlethdodau

Oes oes gennych anghenion ychwanegol, mae bydwragedd yn y sefyllfa orau i ganfod y rhain ac ymateb iddynt.

*Gallwch ddibynnu ar eich bydwraig i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill os bydd angen.*

## 5. Hybu rhagoriaeth: y fydwraig fel cydweithiwr, ysgolhaig ac arweinydd

Mae bydwragedd yn hollbwysig i ansawdd a diogelwch gofal mamolaeth, ac yn ymdrechu bob amser i ddysgu a gwella ansawdd y gofal i bawb.

*Bydd eich bydwraig yn cymryd cyfrifoldeb am ei dysgu gydol oes ei hun, gan gefnogi eraill a rhannu arferion gorau.*

## 6. Y fydwraig fel ymarferydd medrus

Mae angen set sgiliau unigryw i fod yn fydwraig, a bydd bydwragedd yn gweithio'n galed i ddefnyddio eu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

*Gallwch fod yn dawel eich meddwl fod gan eich bydwraig y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddiwallu eich anghenion.*



Dysgwch fwy am safonau i fydwragedd y dyfodol yn:

**www.nmc.org.uk**

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth